Cofnodion Cyfarfod Y PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU a gynhaliwyd yn Hybrid yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa , Aberaeron / o bell trwy gynhadledd fideo ddydd Mercher, 05 Mawrth 2024

YN BRESENNOL: Miss Caryl Davies, Mr Alan Davies, Ms Carol Edwards, Ms Gail Storr a Ms Llinos James

Y Cynghorwyr Caryl Roberts a Gwyn Wigley Evans (Aelodau Sir Etholedig)
Y Cynghorydd Delyth James - Cynrychiolydd Tref a Chymuned

Aelodau Etholedig Eraill yn bresennol: Y Cynghorwyr Bryan Davies, Elizabeth Evans a Gareth Lloyd

YN BRESENNOL:
Ms Elin Prysor (Swyddog Monitro)
Mrs Lisa Evans (Swyddog Craffu a Safonau)
Mrs Dana Jones (Swyddog Democrataidd a Safonau)

(10:00am-11:35am)

1 **Ymddiheuriadau**
Dim.

2 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu
Dim.

3 Cyfle blynyddol i Arweinwyr Grwpiau annerch y pwyllgor am hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan Aelodau Cyngor Sir Ceredigion
Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Gareth Lloyd, Arweinydd Grŵp yr Annibynwyr a'r Cynghorydd Elizabeth Evans, Arweinydd Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol i'r cyfarfod i annerch y pwyllgor ynghylch hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau Cyngor Sir Ceredigion.

Anerchodd y Cynghorydd Bryan Davies y Pwyllgor yn gyntaf ynghylch ei sefyllfa yn ystod ac ar ôl pennu'r gyllideb. Dywedodd ei fod ef a'i deulu wedi cael eu cam-drin ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn bersonol a oedd wedi effeithio mor ddifrifol arno fel nad oedd bellach yn mynychu digwyddiadau nac achlysuron cymdeithasol. Dywedodd ei fod yn gwbl siomedig mewn pobl gan ei fod wedi gweithio'n ddiddiwedd, fel pob Aelod arall er budd y Sir. Roedd ganddo bryderon hefyd fod sawl Aelod wedi targedu Aelodau unigol yn y Siambr yn ddiweddar, a bod hyn yn gwbl annerbyniol. Roedd angen i bawb fod yn gwrtais ac yn ystyriol. Mewn ymateb, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor fod y ddau fater yn gwbl annerbyniol.

Cytunodd y Cynghorydd Elizabeth Evans â sylwadau'r Cynghorydd Bryan Davies, dywedodd fod ei gŵr wedi dychwelyd i Aberaeron yn ddiweddar i fyw o Lundain, ac ni allai gredu'r holl sylwadau negyddol ar y cyfryngau cymdeithasol ynglŷn â'r Cyngor Sir. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod ganddi hyder llwyr ynddo fel Arweinydd cynhwysol. Dywedodd hefyd ei bod yn pryderu bod sawl Aelod wedi bygwth Aelodau eraill ynghylch eitemau i'w trafod mewn cyfarfodydd yn y dyfodol, ond roedd wedi dweud wrth ei grŵp ei hun i beidio â chael ei ddylanwadu.

Dywedodd y Cynghorydd Gareth Lloyd fod llinell denau mewn perthynas â mater ymosodiad personol a gofyn cwestiynau i Aelodau o fewn eu rôl fel Aelod o'r Cabinet ar faterion penodol. Roedd wedi cael ei holi yn ddiweddar gan yr Awdurdod Tân i fod yn atebol am benderfyniadau ond derbyniodd fod ymosodiadau personol yn gwbl annerbyniol. Dywedodd ei fod yn deall sefyllfa'r Arweinydd yn llwyr gan fod pobl bob amser yn dod ato ynghylch materion y Cyngor, hyd yn oed mewn angladdau, priodasau ac ar ddiwrnodau allan i'r teulu. Roedd yr erthyglau yn y wasg leol am y Cyngor Sir yn ogystal â negeseuon Facebook yn gwbl warthus, gan fod penderfyniad y Cyngor oherwydd y toriad yn y cyllid oddi wrth San Steffan a Llywodraeth Cymru.

Diolchodd y Cadeirydd i Arweinwyr y Grwpiau am fynychu a bod yn agored mewn perthynas â'u profiadau; a chynigiodd gefnogaeth i'r Arweinwyr yn y dyfodol.

4 Cadarnhau cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau a gynhaliwyd ar 04 Rhagfyr 2024 fel rhai cywir

PENDERFYNWYD cadarnhau cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 04 Rhagfyr 2024 fel rhai cywir.

Materion sy'n Codi

Eitem 5 – roedd angen cadarnhad ar y dyddiadau gan eu bod wedi eu newid. Byddai hyn yn cael ei ddarparu ar ddiwedd y cyfarfod.

Cofnod 15 (Materion sy'n Codi) – dywedodd y Swyddog Monitro wrth y Pwyllgor fod cofnodion Fforwm y Pwyllgor Safonau Cenedlaethol ar gyfer y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2024 bellach ar gael. Byddent yn cael eu cyflwyno ar agenda'r cyfarfod ar 5/6/24

5 Cofnod o Gamau Gweithredu

Rhoddwyd ystyriaeth i gynnwys y Cofnod o Gamau Gweithredu.

CYTUNWYD i nodi'r cynnwys yn amodol ar gynnwys Hyfforddiant gorfodol o ran y Cyfryngau Cymdeithasol i bob Cynghorydd ei gwblhau ar frys.

6 Swyddog Monitro - Diweddariad ar God Ymddygiad - Chwarter 3 a 4 2023-2024

Rhoddwyd ystyriaeth i'r Diweddariad ar y Cod Ymddygiad - Chwarter 3 a 4 2023-2024 i'r Pwyllgor. Roedd yr adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor gan fod y Pwyllgor wedi gofyn am gael gwybod mewn adroddiadau yn y dyfodol am unrhyw dueddiadau a oedd wedi cynyddu/gostwng a nodi'r cynnydd yn y

blynyddoedd diwethaf o dueddiadau yn ymwneud â'r cyfryngau cymdeithasol a cham-drin ar-lein.

CYTUNWYD i nodi'r diweddariad a chynnwys yr adroddiad.

7 Diweddariad ar faterion Panel Dyfarnu Cymru

Amlygodd y Swyddog Monitro'r angen i roi rhesymau dros y penderfyniad i atal dros dro yn y llythyr gan y Panel Dyfarnu at y Cynghorydd.

CYTUNWYD i nodi'r cynnwys.

8 Diweddariad ar faterion yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

CYTUNWYD i nodi'r cynnwys fel y'i cyflwynwyd.

9 Rhaglenni Hyfforddiant - Cynghorau Tref a Chymuned

Dywedwyd bod 25 o Gynghorau Tref/Cymuned wedi ymateb i'r cais. Roedd 26 o Gynghorau Tref/Cymuned eto i ymateb. Roedd y wybodaeth hon wedi'i rhannu gyda Chynghorwyr Sir i roi gwybod iddynt os nad oedd Cyngor y Gymuned yn eu Ward wedi cyflwyno'r cynllun i'r Cyngor; ac i roi gwybod iddynt fod angen i'r cynllun fod ar eu gwefan yn unol â deddfwriaeth. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Pwyllgor gynnig hyfforddiant o ran y Cod. Awgrymwyd y dylid cynnal hyfforddiant Cod Ymddygiad yn bersonol yn hytrach nag ar zoom gan y byddai'n well gan sawl Cynghorydd yr opsiwn hwn.

CYTUNWYD :
i**) i nodi'r cynnwys.**
ii) y byddai e-bost yn cael ei ddosbarthu i Glercod Cynghorau Tref a Chymuned yn gofyn a oeddent yn dymuno cael hyfforddiant o ran y Cod ac os felly, ym mha fformat.

10 Recriwtio Cynrychiolwyr sy'n Gynghorwyr Tref a Chymuned ar gyfer Pwyllgor Moeseg a Safonau Cyngor Sir Ceredigion

CYTUNWYD i nodi'r sefyllfa ar hyn o bryd mewn perthynas â'r bwriad i benodi cynrychiolydd newydd sy'n Gynghorydd Tref a Chymuned yn dilyn ymddiswyddiad y Cynghorydd Jan Culley.

11 Blaenraglen Waith

CYTUNWYD i nodi cynnwys y Flaenraglen Waith yn amodol ar nodi

- byddai'r gweithdy o Arweinwyr Grwpiau yn cael ei gynnal ar 25 Ebrill a 20 Mai 2024 am 10am trwy zoom.
- byddai hyfforddiant gloywi ar broses y Gwrandawiadau yn cael ei gynnal ar 29 Ebrill 2024 am 10am trwy zoom (nid oedd hyn yn orfodol) ar gyfer y Gwrandawiadau a gynhelir ar 01 Mai 2024 a 05 Mehefin 2024. Anogwyd yr aelodau i fynychu'n bersonol
- Ystyried rhoi Hyfforddiant Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned yng nghyfarfod 5/6/34)
- Cofnodion cyfarfod Fforwm Cadeiryddion Safonau Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2024 (cyfarfod 5/6/24)

- Adroddiad Blynyddol Drafft y Cadeirydd Moeseg a Safonau 2023/24 (cyfarfod 5/6/24)

12 Unrhyw Fater Arall

Cyfryngau cymdeithasol-Swyddog Monitro i ystyried:

- Hyfforddiant gloywi i Gynghorwyr Sir ar y Cod/cyfryngau cymdeithasol
- Canllawiau Cyfryngau Cymdeithasol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i'w hail ddosbarthu i'r holl Aelodau
- Trafodaeth ag arweinwyr grwpiau